Yr Adran Addysg a Sgiliau
Department for Education and Skills

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Tachwedd 2013

Annwyl Gyfaill

**CYNLLUN PRYNU ADNODDAU ADDYSGOL**

Ysgrifennaf atoch i nodi bod Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i bob ysgol gynradd yng Nghymru i brynu adnoddau addysgol i gefnogi'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol.

Bydd y cyllid ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddarparu £300 i bob ysgol gynradd fel lwfans credyd gyda Chyngor Llyfrau Cymru. Byddwch yn gallu defnyddio'r credyd hwn i brynu adnoddau addysgol Cymraeg, Saesneg a dwyieithog a restrir fel 'Ar gael' ar wefan www.gwales.com.

Nod y cynllun yw cefnogi ysgolion mewn cyfnod economaidd anodd ac i hyrwyddo'r detholiad eang o adnoddau sydd ar gael i gefnogi gwaith athrawon yn yr ystafell ddosbarth.

Cyngor Llyfrau Cymru sydd yn gweinyddu'r cynllun hwn ar ran Llywodraeth Cymru, felly mae disgwyl i ysgolion i gwblhau'r ffurflen archeb amgaeedig a'i dychwelyd at y Cyngor **erbyn 14 Chwefror 2014** (ceir manylion eu Swyddogion Ysgol ar y daflen amgaeedig). Er mai canol Chwefror yw dyddiad cau y cynllun rhagwelir y bydd galw mawr am rai adnoddau ac felly byddwn yn eich cynghori i ymateb ar frys i'r cynnig, ac i nodi adnoddau wrth gefn ar y ffurflen archebu. Fe fydd y Cyngor Llyfrau yn cyflenwi'r adnoddau yn ôl trefn eich blaenoriaeth. Hoffwn bwysleisio nad oes modd i chi archebu adnoddau sydd heb eu cynnwys ar www.gwales.com.

Os ydych chi am dderbyn unrhyw wybodaeth bellach mae croeso i chi gysylltu â Swyddogion Ysgol y Cyngor Llyfrau.

Yn gywir

A Evans

Ann Evans
Pennaeth Cangen Comisiynu Adnoddau

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Uned y Gymraeg Mewn Addysg
Yr Adran Addysg a Sgiliau
Tŷ'r Afon,
Heol Bedwas
Bedwas CF83 8WT

Welsh in Education Unit
Department for Education and Skills
Tŷ'r Afon,
Heol Bedwas
Bedwas CF83 8WT